Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# ATODLEN O FATERION A GEDWIR YN ÔL I'R BWRDD

Fersiwn 3: Gorffennaf 2024

**Rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd**

Corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Llais a sefydlwyd i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae'r Atodlen hon yn rhestru'r materion sydd wedi'u neilltuo ar gyfer gwneud penderfyniadau gan Fwrdd Llais. Y Bwrdd sy'n gosod y strategaeth, ac yn darparu craffu, goruchwylio a llywodraethu ar draws holl waith Llais. Mae'n dwyn y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain (yr uwch dîm arwain) i gyfrif am gyflawni'r nodau, amcanion a blaenoriaethau i fodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac adran ehangach dyletswyddau cyhoeddus y sefydliad.

Yn fwy penodol, mae'r materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd yn cynnwys y meysydd cyfrifoldeb a ganlyn:

| **1. Strategaeth a Rheoli** | Rhestr wirio Cyngor a phrosesau. |
|---|---|
| 1.1 Cyfrifoldeb am arweinyddiaeth gyffredinol y sefydliad a gosod gwerthoedd a safonau'r sefydliad yn unol â'r Egwyddorion Llywodraethu Da a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru o'r enw 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.' | Mae hwn yn gyfrifoldeb parhaus i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol llawn o'i effeithiolrwydd ac adolygiad canol-blwyddyn o gynnydd. |
| 1.2 Cymeradwyo nodau ac amcanion strategol y sefydliad, (h.y. strategaeth tair blynedd a chynllun blynyddol) gan gynnwys cymeradwyo datganiadau polisi yn amlinellu cynlluniau'r sefydliad i:<br>(a) hybu ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau; a<br>(b) ceisio barn y cyhoedd at ddibenion ei amcan cyffredinol, i ddeall safbwyntiau a phrofiadau iechyd a gofal cymdeithasol yng | Adolygiad blynyddol yn y Blaenraglen ar gyfer cyfarfod Bwrdd Chwarter 4 |

| | |
|---|---|
| Nghymru, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio adborth gan gymunedau i lunio gwasanaethau. | |
| 1.3 Goruchwylio prosesau'r sefydliad i:<br><br>(a) hyrwyddo gwaith partneriaeth effeithiol gyda'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol;<br><br>(b) sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei cheisio ym mha bynnag ffordd y mae'r Bwrdd yn ei hystyried yn briodol, mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;<br><br>(c) hysbysu Gweinidogion Llywodraeth Cymru am bob newid i'r sefydliad a'i weithgareddau, sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y sefydliad; a<br><br>(d) sicrhau bod cymorth ar gael i unigolion sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwyn sy'n dod o fewn y categori a nodir mewn deddfwriaeth. | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.<br><br>Adroddiadau a chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru. |
| 1.3 Goruchwylio gweithrediadau'r sefydliad gan sicrhau:<br><br>(a) rheolaeth gymwys a doeth;<br><br>(b) cynllunio cadarn;<br><br>(c) cynnal a chadw systemau rheoli cadarn a rheolaeth fewnol;<br><br>(d) cofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. |

| | |
|---|---|
| digonol; a<br>(e) cydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol. | |
| 1.4 Adolygu perfformiad yng ngoleuni nodau, amcanion strategol, cynlluniau busnes a chyllidebau hirdymor y sefydliad a sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu unioni angenrheidiol yn cael eu cymryd. | Mae hwn yn gyfrifoldeb parhaus i'r Bwrdd.<br>Adolygiad blynyddol yn y Blaenraglen ar gyfer cyfarfod Bwrdd Chwarter 4. |
| **2. Dirprwyo awdurdod a Strwythur Trefniadaeth** | |
| 2.1 Rhannu cyfrifoldebau rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu) ac aelodau anweithredol, a ddylai fod wedi’u sefydlu’n glir, wedi’u nodi’n ysgrifenedig ac wedi’u cytuno gan y Bwrdd. | Rheolau Sefydlog, Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Cynllun Dirprwyo. |
| 2.2 Cymeradwyo'r lefelau awdurdod dirprwyedig, gan gynnwys terfynau awdurdod y Prif Weithredwr (y mae'n rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig). Cymeradwyo unrhyw newidiadau i strwythur rheoli a rheolaeth y sefydliad. | Cynllun Dirprwyo, Matrics Awdurdodi a Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. |
| 2.3 Newidiadau mawr i strwythur y sefydliad, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ffurfio pwyllgorau, is-bwyllgorau, grwpiau gorchwyl a gorffen. Cymeradwyo'r cylch gorchwyl a chymeradwyo unrhyw newidiadau perthnasol iddynt. | Rheolau Sefydlog. |
| 2.4 Derbyn a thrafod adroddiadau sicrwydd a chofnodion gan bwyllgorau’r Bwrdd ar eu gweithgareddau. | Ym mhob cyfarfod Bwrdd cyhoeddus perthnasol. |

| | |
|---|---|
| 2.5 Unrhyw newidiadau a gynigir i statws y sefydliad fel corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. | I'w nodi yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. |
| 2.6 Ystyried a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol i ymateb i unrhyw gŵyn a wneir yn erbyn y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a/neu Aelodau Anweithredol, yn unol â pholisïau sefydliadol a Llywodraeth Cymru. | I'w gynghori gan Ysgrifennydd y Bwrdd a gyda chyngor gan Lywodraeth Cymru. |
| **3. Refeniw, cyfalaf ac incwm arall** | |
| 3.1 Goruchwylio'r broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r modd y mae'r sefydliad yn rheoli'r arian a dderbynnir gan Weinidogion Cymru a sicrhau cydymffurfedd â gofynion statudol a gweinyddol ac unrhyw amodau eraill sydd ynghlwm wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 3.2 Cymeradwyo'r cyllidebau gweithredu a gwariant cyfalaf blynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol iddynt. Derbyn adroddiadau rheolaidd ar reolaeth ariannol. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 3.3 Goruchwylio prosesau ar gyfer sicrhau bod gwariant yn erbyn cyllidebau refeniw ac adnoddau cyfalaf yn cael ei gofnodi a'i fonitro yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.' | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chyngor gan y Swyddog Cyfrifyddu. |
| 3.4 Sicrhau bod unrhyw refeniw ac incwm a gynhyrchir o ffynonellau heblaw'r sector cyhoeddus yn gyson â swyddogaethau'r sefydliad, | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a |

| | |
|---|---|
| ei gynlluniau busnes a gweithredol hirdymor ac yn unol â darpariaethau *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a'r Ddogfen Fframwaith. | chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.<br><br>Sicrwydd hefyd wedi'i ddarparu gan y Swyddog Cyfrifyddu. |
| **4. Adroddiadau a rheolaethau ariannol** | |
| 4.1 Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, gan gynnwys y datganiad llywodraethu ac adroddiad taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr, erbyn 31 Awst yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 4.2 Sicrhau bod y cofrestrau canlynol yn cael eu cadw i gefnogi paratoi’r cyfrifon a bodloni’r gofynion datgelu:<br><br>(a) Cofrestr o Ddatganiadau a gwrthdaro buddiannau posibl aelodau'r Bwrdd;<br><br>(b) Anrhegion a dderbyniwyd ac a roddwyd;<br><br>(c) Lletygarwch a dderbyniwyd ac a gynigiwyd;<br><br>(d) Colledion a thaliadau arbennig fel y disgrifir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 4.3 Cymeradwyo unrhyw newidiadau sylweddol a phriodol mewn polisïau cyfrifyddu a sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn modd a nodir yn y Ddogfen Fframwaith. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 4.4 Cymeradwyo gwariant cyfalaf neu weithredu perthnasol heb ei gyllidebu (y tu allan i oddefiannau a bennwyd ymlaen llaw). | I'w nodi a'i gytuno os yw'n briodol mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a |

| | |
|---|---|
| | chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 4.5 Sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn ymwneud â rheolaeth y sefydliad yn cael ei derbyn ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| **5. Gweithrediadau** | |
| 5.1 Mewn ymateb i'r datganiad ffurfiol yn amlinellu'r darpariaethau cyllidebol a wnaed er budd y sefydliad a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru, cymeradwyo'r cynllun gweithredol blynyddol ar gyfer y sefydliad a monitro cynnydd yn erbyn amcanion y cynllun. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor y Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Gweithredol |
| 5.2 Sicrhau bod y cynllun blynyddol y cyfeirir ato yng nghymal 5.1 yr atodlen hon:<br>(a) yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>(b) yn nodi sut y bydd y pum ffordd o weithio a nodir ynddynt yn cael eu defnyddio; ac<br>(c) yn nodi sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. |
| **6. Perfformiad** | |
| 6.1 Goruchwylio gweithrediadau'r sefydliad gan sicrhau: | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor y |

| | |
|---|---|
| (a) rheolaeth gymwys a doeth;<br>(b) cynllunio cadarn;<br>(c) cofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill digonol; a<br>(d) cydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol | Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. |
| 6.2 Adolygu perfformiad yng ngoleuni nodau, amcanion strategol, cynlluniau busnes a chyllidebau hirdymor y sefydliad a sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu unioni angenrheidiol yn cael eu cymryd. | I'w nodi a'i gytuno mewn Cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus gyda chyngor y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol.<br>Cyngor a chraffu ar bwyllgorau'r Bwrdd. |
| 6.3Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru sy’n noddi o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu a thrafod cynnydd yn erbyn amcanion strategol y sefydliad. Hefyd, yn ôl yr angen gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod materion iechyd a gofal cymdeithasol.<br>6.4Bydd y Prif Weithredwr ac arweinwyr gweithredol cytunedig yn cyfarfod yn rheolaidd â thîm partneriaeth Llywodraeth Cymru i adolygu a thrafod cynnydd yn erbyn amcanion strategol y sefydliad | Y Cadeirydd i adrodd i'r Bwrdd.<br>Y Prif Weithredwr i adrodd i'r Cadeirydd a'r Bwrdd. |
| **7. Rheolaethau mewnol** | |
| 7.1 Sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol a rheoli risg yn cael ei chynnal gan gynnwys: | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |

| | |
|---|---|
| (a) Cymeradwyo datganiadau parodrwydd i dderbyn risg y sefydliad;<br><br>(b) Derbyn adroddiadau ar brosesau risg a rheoli'r sefydliad, ac adolygu eu heffeithiolrwydd, i gefnogi ei strategaeth a'i amcanion gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;<br><br>(c) Cymeradwyo gweithdrefnau ar gyfer canfod twyll ac atal llwgrwobrwyo, a pholisïau cyfrifyddu ariannol eraill;<br><br>(d) Goruchwylio cynnal a chadw trefniadau ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol;<br><br>(e) Derbyn asesiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli mewnol; a<br><br>(f) Cymeradwyo datganiad priodol i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol. | Y Bwrdd gyda chyngor gan bwyllgorau, yn enwedig y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| 7.2 Sicrhau bod prosesau priodol yn bodoli i roi sicrwydd bod Llais yn bodloni'r holl rwymedigaethau statudol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, Cyflogaeth, Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Safonau'r Gymraeg. | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br><br>Y Bwrdd gyda chyngor gan bwyllgorau, yn enwedig y Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth. |
| **8. Contractau** | |
| 8.1 Cymeradwyo prosiectau cyfalaf a nid-er-elw mawr athrosolwg dros weithredu a chyflawni. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Craffu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |

| | |
|---|---|
| 8.2 Contractau y bernir eu bod yn berthnasol, yn strategol arwyddocaol neu oherwydd maint (ar gyfer contractau gwerth rhwng £25,001 a £125,000, mae angen cymeradwyaeth y Prif Weithredwr. Mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer contractau gwerth rhwng £125,001 a throthwy cyffredinol OJEU). Rhaid cyfeirio contractau sydd wedi'u prisio uwchlaw'r trothwy OEJU cyffredinol i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Craffu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 8.3 Contractau sy'n 'berthnasol' yn strategol neu oherwydd eu maint, yr ymrwymir iddynt gan y sefydliad fel rhan o fusnes arferol. Contractau'r sefydliad nad ydynt yn mynd ar drywydd ei ddiben a'i amcanion. | Gwerth materol i'w bennu gan y Cynllun Dirprwyo a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. |
| 8.4 Sicrhau bod yr holl gontractau yr ymrwymir iddynt, a'r buddsoddiadau a wneir, yn dilyn y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a basiwyd a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Craffu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| **9. Cyfathrebu** | |
| 9.1 Sicrhau deialog foddhaol gyda rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru a Gweinidogion a'r cyhoedd yn gyffredinol yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o amcanion. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. |
| 9.2 Cymeradwyo datrysiadau, penderfyniadau pwyllgorau, is-bwyllgorau, timau, tasgau a grwpiau ffocws a dogfennaeth gyfatebol i'w cyflwyno i'r rhanddeiliaid angenrheidiol, Llywodraeth Cymru a Gweinidogion a'r cyhoedd yn gyffredinol. | Y Bwrdd gyda chyngor a chraffu gan ei bwyllgorau. Pob penderfyniad i gael ei wneud yn gyhoeddus neu wedi hynny adrodd yn gyhoeddus trwy |

| | |
|---|---|
| | gadarnhad y Bwrdd. |
| 9.3 Cymeradwyo strategaeth y cyfryngau a chyfathrebu. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. |
| 9.4 Sicrhau bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cael gwybod mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau Llais, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol, ac unrhyw newidiadau polisi neu arferion a allai fod â goblygiadau ariannol ehangach. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol.<br><br>Y Prif Weithredwr i reoli'r broses hon o ddydd i ddydd ac adrodd i'r Cadeirydd a'r Bwrdd. |
| **10. Tâl** | |
| 10.1 Cymeradwyo polisi tâl y Prif Weithredwr gan gyfeirio at egwyddorion tâl Llywodraeth Cymru a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu am unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau cyflog. | Y Bwrdd gyda chyngor a chraffu ar Bwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/Pwyllgor Telerau Gwasanaeth a Chydnabyddiaeth. |
| 10.2 Penodi a diswyddo'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu. | Y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd a gyda chyngor/cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran statws Swyddog Cyfrifyddu. |
| 10.3 Penodi a diswyddo Ysgrifennydd y Bwrdd. | Y Prif Weithredwr i ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Bwrdd i'w hysbysu. |
| 10.4 Gwerthusiad blynyddol o aelodau anweithredol a phenderfynu ar ailbenodi hyd at | Y Cadeirydd gyda chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd |

| | |
|---|---|
| uchafswm o 8 mlynedd i gyd. | a chyswllt gyda chymeradwyaeth gan Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. |
| 10.5 Penderfynu ar benodiad a thâl unrhyw aelodau annibynnol a benodir yn unol â'r Rheolau Sefydlog, yn amodol ar y polisi tâl. | Y Bwrdd gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Hefyd, canllawiau gan Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. |
| 10.6 Adolygu penderfyniadau, cynlluniau a pholisïau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. | Y Bwrdd gyda chyngor a chraffu gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. |
| 10.7 Cymeradwyo'r Strategaeth Gwirfoddoli. | Y Bwrdd gyda chyngor Y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. |
| **11. Materion Llywodraethu Corfforaethol** | |
| 11.1 Yn unol â Chod Llywodraethu'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (adran 3.1) cynghori Gweinidogion Cymru ar y sgiliau a'r profiad sy'n briodol i gynnwys fel meini prawf dethol ar gyfer penodiadau'r Bwrdd yn y dyfodol ac i'w cymeradwyo gan y Gweinidog i benodi Prif Weithredwr. | Cadeirydd y Bwrdd gyda chefnogaeth Ysgrifennydd y Bwrdd. |
| 11.2 Cynnal adolygiad blynyddol ffurfiol a thrylwyr o'i berfformiad ei hun, perfformiad ei bwyllgorau a'i gyfarwyddwyr unigol, a'r is-adran cyfrifoldebau. | Bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol llawn o'i effeithiolrwydd ac adolygiad canol blwyddyn |

| | |
|---|---|
| | o gynnydd gyda chymorth Ysgrifennydd y Bwrdd. |
| 11.3 Adolygu, o leiaf bob tair blynedd, drefniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol y sefydliad. | Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo hyn gyda chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac Ysgrifennydd y Bwrdd. |
| 11.3 Derbyn adroddiadau ar farn rhanddeiliaid y sefydliad a Llywodraeth Cymru. | Y Bwrdd gyda chyngor gan y Tîm Gweithredol a chraffu gan y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth. |
| 11.4 Awdurdodi gwrthdaro buddiannau i'r graddau a ganiateir yn unol â dogfennau llywodraethu perthnasol eraill y sefydliad ac unrhyw gyfraith, rheoliadau a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd. | Y Cadeirydd, Prif Weithredwr gyda chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Darperir craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. |
| **12. Polisïau** | |
| 12.1 Cymeradwyo polisïau, strategaethau a chynlluniau gan gynnwys:<br><br>Polisi ariannol;<br><br>Polisi tâl (gan gynnwys cymeradwyo unrhyw Gynlluniau Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol a chymeradwyo unrhyw bolisi dileu swyddi/diswyddiadau yn unol â chytundebau cenedlaethol);<br><br>Polisi risg;<br><br>Polisïau a chynllun cyhoeddi Llywodraethu Gwybodaeth; | Y Bwrdd gyda chyngor gan ei bwyllgorau a datblygiad trwy'r Tîm Gweithredol. |

| | |
|---|---|
| Polisi atal llwgrwobrwyo;<br>Polisi a strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;<br>Polisi chwythu'r chwiban yn unol â'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd;<br>Polisi Diogelu;<br>Polisïau Iechyd a Diogelwch;<br>Polisi sero net a datgarboneiddio;<br>Polisïau adnoddau dynol a pholisïau gwirfoddolwyr;<br>Polisi cyfathrebu;<br>Strategaeth a Chynlluniau Parhad Busnes.<br>Strategaeth Ystadau a Lleoliad. | |
| **13. Arall** | |
| 13.1 Erlyn, cychwyn, amddiffyn neu setlo ymgyfreitha, neu fecanwaith datrys anghydfod amgen. | Cyflwyniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd gyda chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd. |
| 13.2 Cymeradwyo lefelau cyffredinol yswiriant ar gyfer y sefydliad gan gynnwys indemniad ar gyfer gwirfoddolwyr, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac indemniad masnachol cyffredinol. | Cyflwyniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd gyda chyngor gan y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol. |
| 13.3 Unrhyw benderfyniad sy’n debygol o gael effaith sylweddol ar y sefydliad o unrhyw safbwynt, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ariannol, gweithredol, strategol neu | Cyflwyniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd gyda chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| enw da. | |
| 13.4 Mae'r rhestr hon o faterion wedi'u cadw ar gyfer penderfyniadau'r bwrdd. | Y Bwrdd i adolygu yn unol ag amserlen adolygu llywodraethu tair blynedd a chymeradwyo newidiadau, yn ôl yr angen. |
| 13.5 Cael gwybod bod y Prif Weithredwr a/neu’r Cadeirydd wedi llofnodi addewidion, cytundebau a chyfamodau. | Cyflwyniad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd gyda chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd. |

Mae materion y mae'r Bwrdd yn eu hystyried yn addas i'w dirprwyo wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl ei bwyllgorau a Chynllun Dirprwyo ehangach y sefydliad.

Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau ac argymhellion o bryd i’w gilydd ar unrhyw fater y mae’n ei ystyried yn arwyddocaol i’r sefydliad ac yn cadw’r hawl i dynnu dirprwyo blaenorol yn ôl ar unrhyw adeg a dychwelyd at fater a gadwyd yn ôl i’r Bwrdd yn unig benderfynu arno.